

ADRODDIAD EFFAITH

2023-2024

sefydliaddysguagwaith.cymru



CYFLWYNIAD

Rydym yn falch o'r gwahaniaeth a wnaethom mewn cyfnod heriol. Mae argyfwng costau byw yn dilyn degawd o dwf isel wedi gadael llawer yn ei chael yn anodd i gael deupen llinyn ynghyd a gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau. Mae'n rhaid i aildechrau twf economaidd sydd wedi aros yn ei unfan mewn ffyrdd sydd o fudd i'r rhai ar yr incwm isaf fod yn rhan o'r ateb. Mae ein gwaith wedi helpu i dynnu sylw at ffyrdd y gallwn wneud hyn a sicrhau'r newidiadau a fyynnir gan y cyfuniad o newidiadau yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a datblygiadau mewn technoleg.

Mae cynnydd mewn anweithgaredd economaidd yn dilyn y pandemig yn cyfyngu twf yn ei gwneud yn anodd i gyflogwyr ganfod y bobl maent eu hangen, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd pobl. Fe wnaethom helpu i adeiladu dealltwriaeth o'r her, yn cynnwys y cynnydd mewn pobl allan o waith oherwydd salwch hirdymor a llunio'r hyn sydd angen iddo newid. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy werthuso cynllun Restart a threialon iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a gweithio ar y newidiadau ehangach sydd eu hangen drwy gefnogi Comisiwn Bywydau Gwaith Iachach y Sefydliad Iechyd.

Mae gwendidau yn sylfaen sgiliau y Deyrnas Unedig o gymharu â gwledydd eraill, yn arbennig mewn sgiliau canolradd a sgiliau hanfodol fel llythrennedd a rhifedd, wedi llesteirio ein heconomi a hefyd gyfleoedd bywyd pobl am fwy na chanrif. Dangosodd ein hymchwil fod y Llywodraeth wedi torri cyllid sgiliau oedolion yn Lloegr gan £1 biliwn ers 2010 a bod cyflogwyr yn gwario 26% yn llai ar hyfforddiant fesul gweithiwr nag oeddent yn 2005. Fe wnaethom ddadlau y gallai diwygio ardoll prentisiaeth, Credyd Treth Sgiliau newydd ac ehangu Hawl Dysgu Gydol Oes wneud gwahaniaeth.

Fe wnaethom hefyd edrych sut i roi gwell cefnogaeth i grwpiau neilltuol o bobl a gwahanol fathau o ddysgu. Roedd hynny yn cynnwys ymgyrchu dros newidiadau yn y rheol 21-awr sy'n golygu fod gormod o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn wynebu ystod culach o opsiynau dysgu na phobl

ifanc eraill os oes angen iddynt barhau i dderbyn Lwfans Gofalwr. Fe wnaethom hefyd roi sylw i'r gwahaniaeth y gall Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ei gael a hefyd sut y gall dysgu gefnogi iechyd drwy bresgripsiynau cymdeithasol, a phrofi Cwricwlwm Dinasyddion newydd yng Nghymru.

Cafodd yr amrywiaeth o ffyrdd y gall dysgu wneud gwahaniaeth eu harddangos yn ein Gwobrau Gŵyl Ddysgu ac Ysbrydoli!

Yn olaf, bydd bywydau gwaith hirach yn golygu y bydd angen i bobl ddiweddarau eu sgiliau a newid gyrfaedd yn fwy aml. Dangosodd ein hymchwil fod tua 5% o oedolion yn newid sector neu alwedigaeth bob blwyddyn, yn aml yn wynebu gostyngiad mewn cyflog wrth wneud hynny. Fe wnaethom ddadlau dros well cefnogaeth i bobl i newid gyrfa a diweddarau eu sgiliau.

Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb ein hymddiredolwyr, partneriaid a'n tîm rhagorol ac ymroddedig. Diolchwn iddynt am eu gwaith dros y flwyddyn.

Mae tegwch a ffyniant yn mynnu newid sylweddol mewn dysgu, sgiliau a chyflogaeth. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos hwnnw, adeiladu'r sylfaen tystiolaeth, llunio polisi a phrofi ffyrdd newydd o weithio.

Jeremy Moore, Cadeirydd y Bwrdd a Stephen Evans, Prif Weithredwr

EIN CENHADAETH

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.


Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial.

Rydym yn ymchwilio'r hyn sy'n gweithio, yn dylanwadu ar bolisi ac yn datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd wrth galon popeth a wnawn wrth i ni weithio tuag at gymdeithas deg a llewyrchus.



PAM EIN BOD YMA



Mae 1 mewn 2 oedolyn yn dweud eu bod yn dysgu neu wedi gwneud hynny yn y tair blynedd ddiwethaf.

Ond nid yw 1 mewn 4 oedolyn wedi cymryd rhan mewn dysgu ers iddynt adael addysg lawn-amser gyda diffyg cydraddoldeb amlwg iawn



Mae 1.8 miliwn

o bobl economaidd anweithgar yn dweud eu bod eisiau swydd,

ond nid oes cymorth ar gael yn eang. Dim ond 1 mewn 10 o bobl anabl a phobl hŷn sydd allan o waith sy'n cael help i ganfod gwaith.



Mae nifer prentisiaethau wedi gostwng gan 34% ers cyflwyno'r ardoll prentisiaeth a diwygiadau eraill. Dim ond tua un mewn dau brentis sy'n gorffen eu prentisiaeth.

Erbyn 2035, dim ond cymwysterau lefel TGAU neu gyfwerth fydd gan 1 mewn 3 oedolyn,

tu ôl i lawer o wledydd cymharol ac yn costio £20 biliwn y flwyddyn i'r economi.



Yn y DU, mae gan **9 miliwn o oedolion** sgiliau llythrennedd neu rifedd isel

Eto bu gostyngiad o 62% mewn cyfranogiad mewn dysgu Saesneg a mathemateg gan oedolion yn y degawd hyd at 2022/23.

Gallai sicrhau cyfradd cyflogaeth o **80%** hybu economi y DU gan **£23 biliwn** y flwyddyn

cyllid cyhoeddus gan £8 biliwn ac incwm aelwydydd gan £830 y flwyddyn ar gyfartaledd.



Mae buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant wedi gostwng gan 26% ers 2005, gyda graddedigion 3 gwaith yn fwy tebygol o gael hyfforddiant yn y gwaith na phobl heb radd.

GWNEUD GWAHANIAETH

Roedd gan ein gwaith ffocws ar chwe thema:




Mae **dysgu gydol oes** yn gwella gwaith, iechyd, llesiant a dinasyddiaeth. Eto mae cyfranogiad mewn dysgu yn anghyfartal. Mae ein ffocws ar yr achos dros ddysgu gydol oes a'r polisi ac ymarfer i gyflawni hyn.



Dylai **cyflogaeth a nawdd cymdeithasol** sicrhau fod pawb a all weithio yn cael cyfle i wneud hynny. Ond mae anweithgaredd economaidd wedi cynyddu yn bennaf oherwydd salwch hirdymor. Ein nod yw i bawb a all weithio i gael y cymorth maent ei angen gael mynediad i waith a ffynnu yn y gweithle.



Mae **sgiliau hanfodol a sgiliau bywyd** fel llythrennedd, iaith, rhifedd, digidol, dinasyddiaeth a sgiliau iechyd ac ariannol yn sylfaenol i fywyd a gwaith. Eto nid oes gan naw miliwn o oedolion sgiliau gweithredol ac mae cyfranogiad yn eu dysgu wedi gostwng yn sylweddol. Mae ein ffocws ar ddatblygu ffordd newydd i ennyn diddordeb pobl a chyflenwi dysgu.



Mae **gwaith da a chynnydd** yn helpu safonau byw pobl a chyfleoedd ar gyfer datblygu. Eto mae pum miliwn o bobl ar gyflog isel ac mae gormod o bobl yn cael eu dal mewn cyflog isel. Mae ein ffocws ar yr hyn sy'n gweithio ar gyfer cefnogi pobl ar dâl isel, yn cynnwys cyngor ar yrfaeodd a gwelliannau mewn sgiliau.



Dylai **prentisiaethau ac addysg dechnegol** fod ar gael i bawb a all fanteisio ohonynt. Eto mae nifer y prentisiaethau wedi gostwng, mae mynediad iddynt yn anghyfartal ac mae ansawdd darpariaeth yn amrywio. Mae ein ffocws ar ansawdd a mynediad i brentisiaethau ac addysg dechnegol sy'n gweithio ar gyfer oedolion a phobl ifanc.



Cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant oherwydd na ddylai cyfleoedd bywyd gael eu cyfyngu gan gefndir. Eto mae symudedd cymdeithasol yn is nag mewn gwledydd eraill. Mae ein ffocws ar eirioli dros well cefnogaeth ar gyfer grwpiau sy'n aml yn colli allan a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ddarparu hyn gyda phartneriaid.

LLUNIO POLISI

Rydym yn annog datblygiad polisi seiliedig ar dystiolaeth a defnyddiwn ein gwybodaeth i wella dyluniad a darpariaeth gwasanaeth. Mae uchafbwyntiau yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Dylanwadu ar syniadaeth am sut i gefnogi pobl i newid gyrfaedd, yn cynnwys rhoi sylw i'r 'cosb tâl newid gyrfa'.
- Parhau i ddylanwadu ar syniadaeth ar sut i wrthdroi'r gostyngiad mewn buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau.
- Helpu i sicrhau cynnydd yn y Bwrsari Prentisiaeth Ymadawyr Gofal.
- Adeiladu cefnogaeth ar gyfer ein hymgyrch i atal oedolion ifanc sy'n ofalwyr rhag cael eu cosbi drwy'r rheol sy'n atal pobl sy'n astudio am fwy na 21 awr yr wythnos rhag hawlio Lwfans Gofalwr.
- Dylanwadu a rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu polisi Cyllideb Addysg Oedolion wedi ei ddatganoli yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr ac ardaloedd cyfun eraill sydd â maer, drwy ystod o brosiectau ymchwil a gwerthuso.
- Sicrhau ymrwymiad cryf i Gymru fel cenedl ail gyfle a pheilota Cwricwlwm Dinasyddion Cymru.
- Cefnogi Medr, y Comisiwn newydd ar Addysg Drydyddol yng Nghymru, i ddeall ei ddyletswyddau newydd ar ddysgu gydol oes drwy grwpiau ffocws dysgwyr.
- Cael ein galw i roi tystiolaeth i nifer o bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a phwysigrwydd cymorth cyflogaeth lleol ar gyfer pobl economaidd anweithgar.
- Sefydlu ac arwain partneriaeth newydd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymunedau sy'n Gweithio, y Sefydliad Cyflogaeth a 10 cymdeithas tai i brofi Jobs Plus, dull seiliedig ar y gymuned o gynnig cymorth cyflogaeth..

Yn ychwanegol, fe wnaethom ymateb i ymholiadau ac ymgynghoriadau'r Llywodraeth ac anfon a chyflwyno tystiolaeth i Grwpiau Seneddol Ollbleidiol yn cynnwys y Grŵp Materion Ieuenctid a'r Grŵp Addysg Oedolion.

#EmpSkills24



EIN SYLW YN Y CYFRYNGAU

 MWY NA
550
DARN O SYLW YN Y CYFRYNGAU

ar gyfer ein hymgyrchoedd a'n hymchwil a dadansoddiad unigryw, gyda'n sylwebaeth ar ystadegau marchnad lafur yn cael sylw rheolaidd ar y newyddion cenedlaethol. Cawsom sylw sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol mewn print, ar-lein, radio a theledu ar gyfer ein hymchwil polisi, yn cynnwys yn The Telegraph, The Times, The Financial Times, The Economist, The i, BBC News, BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live.

THE  TIMES  The Economist

Cafodd ein gwaith sylw hefyd yng nghyhoeddiadau'r sector yn cynnwys FE Week, FE News, Education Journal, People Management, Municipal Journal, LocalGov, Children and Young People Now, Wonkhe, Inside Housing a The Stage.

MWY NA

258,000

edrychiad gwefan yn y flwyddyn.

Cynyddodd y nifer o amgylch cyhoeddi adroddiadau yn cynnwys yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu a'n digwyddiadau, yn cynnwys ein Uwch-gynhadledd Cyflogaeth a Sgiliau, yr Wythnos Dysgu Gydol Oes a'r Gwobrau Gŵyl Ddysgu. Denodd gwefan Dysgu a Gwaith Cymru 9,700 o ddefnyddwyr.



18,200

yn dilyn @LearnWorkUK
a 4,709 yn dilyn @LearnWorkCymru.



YouTube

15,900

edrychiad gyda 87,800 munud o ffilm wedi'i weld.



5,869

 yn dilyn

7,598 edrychiad tudalen a 3,159 ymwelydd unigryw.

DOD Â PHOBL YNGHYD

Rydym yn cynnal ystod o rwydweithiau, yn eirioli drwy gynghreiriau a chynnull pobl a sefydliadau i ganolbwyntio ar faterion llosg, ac i gynyddu ein dylanwad a'n heffaith. Roedd yr uchafbwyntiau yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Daeth ein Cynhadledd Gwaith Gwell â **100 o randdeiliaid** ynghyd i ymchwilio gwahanol ddimensiynau o ansawdd swyddi, yn cynnwys iechyd meddwl, hawliau gweithwyr a gwaith hyblyg.
- Denodd ein Uwchgynhadledd Cyflogaeth a Sgiliau ar-lein, a noddwyd gan Clarion Futures, Youth Futures Foundation, Edge Foundation a City & Guilds, fwy na **150 i fynychu**.
- Roedd ffocws ein cynhadledd flynyddol Saesneg, Mathemateg ac ESOL, a gyflwynwyd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019 i **100 o gyfranogwyr**, gyda ffocws ar gyflwyno Multiply a defnyddio technoleg mewn addysgu sgiliau hanfodol.

Fe wnaethom hefyd gynnal gweminarau fel rhan o'r Wythnos Dysgu Gydol Oes, gyda ffocws ar newid gyrfa ac iechyd a byrddau crwn polisi ar gyflogaeth anabledd a buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau.

Yng Nghymru fe wnaethom gynnal **gweminar ar ddyfodol Gwaith Teg** gyda'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn brif siaradwr gyda tua **60 yn mynychu**. Fe wnaethom hefyd lansio ein hymchwil ar **gymorth cyflogaeth yng Nghymru** yn Adeilad Pierhead ym Mae Caerdydd, oedd yn cynnwys nifer o Aelodau'r Senedd a gyda thua **70 yn mynychu**.



YSBRYDOLI OEDOLION I DDYSGU

Mae'r Wyl Ddysgu yn Lloegr a'r Wythnos Addysg Oedolion yng Nghymru wedi dathlu'r goreuon mewn addysg oedolion ac ysbrydoli pobl i ddysgu am fwy na 30 mlynedd, gan ysbrydoli dathliadau tebyg ym mhedwar ban byd.

Fe wnaethom gydweithio gydag Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr i gyflwyno eu **Gwobrau Addysg Oedolion Gorllewin Canolbarth Lloegr** cyntaf, gyda'r seremoni ym Mai 2023. Fe wnaethom hefyd weithio gydag Awdurdod Llundain Fwyaf i gyflwyno **Gwobrau Addysg Oedolion Maer Llundain** am yr ail dro, gyda dathliad ym mis Tachwedd ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr a'u cefnogwyr.

Yn Lloegr, cafodd yr Wyl Ddysgu ei chefnogi gan NOCN, City Lit, y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant, y Grŵp Sgiliau ac Addysg a Phoenix Insights. Cyhoeddwyd enillwyr y gwobrau ym mis Gorffennaf a chafodd y 10 enillydd a'r 7 yn y rownd derfynol eu dewis o bron 200 enwebiad. Cafodd **ffrwd fyw y seremoni wobrwyo ei gweld mwy na 1,500 o weithiau**. Cafodd straeon yr enillwyr gwobrau **lawer o sylw yng nghyhoeddiadau'r sector**.

Cynhaliwyd yr Wythnos Dysgu Gydol Oes rhwng 6 a 10 Tachwedd 2023 gyda thema wahanol bob dydd, yn cynnwys **newid gyrfa, creadigrwydd a diwylliant, iechyd a dysgu ar gyfer y dyfodol**. Yn ystod yr wythnos fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein **Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu** blynyddol a chynnal ein **Cynhadledd Mathemateg ac ESOL** flynyddol.

Festival of Learning



100+

partneriaid gan gynnwys;



Wales
TUC
Cymru



15,000

pobl sy'n ymwneud â'r ymgyrch



#InspireCymru2022

Ysbrydolwch! Gwobrau Dysgu a Thiwtor

12 miliwn

X (Twitter) Argraffiadau

Yng Nghymru roedd yr Wythnos Addysg Oedolion yn cynnwys 150 partner a chymysgedd o **dros 600 o gyrsiau ar-lein ac wyneb yn wyneb, sesiynau blasu, digwyddiadau ac adnoddau dysgu. Cymerodd dros 15,000 o bobl ran yn yr ymgyrch** drwy gydol mis Medi. Cafodd cyfleoedd dysgu eu cyflwyno gan ystod o randdeiliaid yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, Amgueddfa Cymru, UNISON Cymru, y Coleg Digidol, darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, TUC Cymru, Sir Ddinbych yn Gweithio, Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach, MAD Abertawe ac eraill. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drefnu ymgyrch farchnata amlgyfrwng a gyfeiriodd gannoedd o bobl at gyngor, arweiniad a digwyddiadau ar wefannau Cymru'n Gweithio a'r Wythnos Addysg Oedolion. Roedd **ein llwyfan ymgyrch ar-lein** yn cynnig cyrsiau am ddim, digwyddiadau arbennig, straeon dysgwyr a dolenni i wybodaeth bellach. **Roedd 34,000 edrychiad tudalen** drwy gydol mis Medi, ac ysgogodd ein **cynnwys dros 12 miliwn argraffiad ar X/Twitter**.

Cynhaliwyd Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion ym mis Medi a gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid ym mis Mawrth gyda chyfraniadau gyda **Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg ar y pryd a John Griffiths AS**. Mynychwyd y gwobrau gan **dros 200 o westeion** yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd a chafodd **straeon llwyddiant yr enillwyr gwobrau 61 darn o sylw yn y cyfryngau yn cynnwys Newyddion ITV, S4C a Radio Wales**.



DATBLYGU DATRYSIADAU

Gwerthfawrogi dysgu gydol oes

Yn ei 27ain blwyddyn, dangosodd ein Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu y dywedodd bron un ym mhob dau o oedolion (49%) iddynt gymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf – y gyfradd uchaf ers dechrau'r arolwg yn 1996. Cafodd hyn ei yrru gan y nifer cynyddol sy'n dysgu'n annibynnol ac ar gyfer hamdden, ond gyda llai o gyfleoedd ffurfiol i ddysgu yn dilyn toriadau'r llywodraeth a diffyg cydraddoldeb mawr mewn pwy sy'n cymryd rhan mewn dysgu.

Sefydlodd ein partneriaeth strategol aml-flwyddyn gyda Ufi VocTech Trust bartneriaethau mewn pedwar lle ar draws y Deyrnas Unedig i brofi a dysgu'r hyn sy'n gweithio i gynyddu cyfranogiad oedolion mewn dysgu, yn cynnwys mwy o fabwysiadu a defnydd o dechnoleg.

Yng Nghymru, fe wnaethom adolygu partneriaethau addysg oedolion i lywio llywodraethiant cyn symud i reoleiddio gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Fe wnaethom gydlynw gwaith Taith, y rhaglen cyfnewid dysgwyr rhyngwladol yng Nghymru ar gyfer addysg oedolion.





Gwella deilliannau ar gyfer pobl ifanc

Fel cyd-gadeiryddion y Grŵp Cyflogaeth Ieuentid, rydym wedi cynnull ein haelodau yn rheolaidd a galw am Warant Person ifanc.

Mae ein gwerthusiad o Wasanaeth Cyflogaeth Ieuentid Gogledd Ddwyrain Lloegr yn helpu i wella deilliannau ar gyfer pobl ifanc gydag awtistiaeth.

Fe wnaeth ein hymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau y gall hyfforddwy cyflogaeth â chymorth gynnig yr help mae pobl ifanc ei angen i symud i gyflogaeth.

Fe wnaethom hyfforddi a chefnogi grwpiau o bobl ifanc gyda phrofiad o ofal i ymchwilio ac ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Fel canlyniad, cafodd profiad o ofal ei gydnabod fel nodwedd a warchodir gan eu hawdurdodau lleol.

Lansiwyd ein prosiect Gyrru Newid mewn Addysg Uwch i gefnogi prifysgolion i gyflwyno polisïau newydd a chymorth i wella profiadau a deilliannau oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, sicrhaodd ein ymgyrch i eithrio oedolion ifanc sy'n ofalwyr o'r rheol 21 awr yn y system; budd-daliadau ac mae'n codi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu oedolion ifanc sy'n ofalwyr wrth gael mynediad i addysg bellach.

Prentisiaethau hygyrch, ansawdd uchel ac addysg dechnegol

Fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Datblygu Strategol (SDN) i gyflwyno rhaglen cymorth cyflogwyr Lefel T y Llywodraeth.

Fe wnaethom gynnal ymchwil pellach ar brentisiaethau ar gyfer St Martin's Group a chyflwyno ein canfyddiadau mewn digwyddiad i arweinwyr diwydiant ar y rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr prentisiaethau a sut y gall cyflogwyr gefnogi cwblhau prentisiaethau.

Fe wnaethom gyhoeddi ymchwil ar ran WorldSkills UK ar sut y gall pobl ifanc sicrhau y sgiliau technegol rhagorol mae'r Deyrnas Unedig eu hangen i fod yn arweinydd byd-eang mewn uwch-weithgynhyrchu.

Fe wnaethom adolygu'r system addysg a hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru, gan ddefnyddio yr arfer gorau yn Ewrop ar addysg alwedigaethol ddechreuol a pharhaus i lywio'r comisiwn trydyddol newydd.





Deall yr hyn sy'n gweithio

Fe wnaethom brofi ffyrdd o helpu pobl i ailsgilio a newid gyrfa yng Nghymru, Caeredin, Belfast a Dyffryn Tees fel rhan o'n rhaglen flaengar, Dyfodol Newydd.

Mae ein gwerthusiad cenedlaethol aml-flwyddyn o gynllun Restart yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi llywio syniadau'r Adran am raglenni cyflogaeth y dyfodol.

Roedd gwerthusiad llawn treialon iechyd yr Uned Gwaith ac lechyd yn cynnwys gwerthusiad proses dan arweiniad Dysgu a Gwaith. Hwn oedd y gwerthusiad mwyaf erioed o Leoliad Unigol a Chymorth (IPS) a bydd yn helpu i lywio ymestyn y rhaglen ymhellach.

Buom yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill i ddatblygu cynlluniau peilot gyda chymdeithasau tai a phartneriaid i brofi Jobs Plus, dulliau seiliedig ar le i gynyddu cyflogaeth.

Gwella cyfleoedd cyflogaeth

Fe wnaethom gyhoeddi dadansoddiad newydd a ganfu fod pobl sy'n ddi-waith 10 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith 6 mis yn ddiweddarach na phobl economaidd anweithgar, ac mai dim ond 1% o bobl economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor sydd mewn gwaith 6 mis yn ddiweddarach. Fe wnaethom alw am gyflawni cyfradd cyflogaeth o 80% yn y Deyrnas Unedig drwy ymestyn cymorth cyflogaeth, gweithio gyda chyflogwyr ar recriwtio a dylunio swyddi a buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol fel iechyd, sgiliau a gofal plant.

Fel partner yn ymgyrch Health Equals y Sefydliad Iechyd, fe wnaethom yr achos dros gymorth i helpu pobl aros yn y gwaith, a ffocws ar ryngweithio rhwng iechyd, llesiant a gwaith. Fe wnaethom hefyd ffurfio cynllun cydweithio newydd gyda'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth a'r Gymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus i fod yn bartneriaid ymchwil ar gyfer y Comisiwn ar gyfer Bywydau Gwaith Iachach, a gefnogwyd gan y Sefydliad Iechyd.

Yng Nghymru, fe wnaethom werthuso rhaglen a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a gynhaliwyd gan Goleg Gŵyr, a weithiodd gyda 5,500 o bobl yn cynnwys llawer o bobl sydd mewn gwaith rhan-amser, cyflog isel neu ansicr. Mae'n cynnwys cymorth cyflogaeth mewn-gwaith, gan adeiladu ar ein gwerthusiad o Wasanaeth Cymorth Mewn Gwaith Llywodraeth Cymru.

Edrychodd ein hadroddiad Pa ffordd nawr am gymorth cyflogaeth yng Nghymru? ar gymhlethdodau'r polisi tirlun presennol a chyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Fe wnaethom weithio gydag Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr i ddatblygu glasbrint ar gyfer Hybiau Cyflogaeth a Sgiliau Oedolion ar draws y rhanbarth.





Helpu pobl ar dâl isel i sicrhau cynnydd a meithrin sgiliau

Cynyddodd ein Rhwydwaith Gwaith Gwell, cynllun seiliedig ar bolisi ac ymarfer yn Llundain ac ar draws y Deyrnas Unedig, ei aelodaeth i dros 800 o aelodau.

Fe wnaethom gyhoeddi ymchwil newydd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddyfodol gwaith a ddangosodd fod lleiafrifoedd ethnig, gweithwyr hŷn a phobl anabl yn cael eu gorgynrychioli yn yr economi gig, hunangyflogaeth a diwydiannau sydd mewn risg o awtomeiddio.

Fe wnaethom gynnal sesiwn bwrdd crwn ar fuddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau ar y cyd gyda Edge Foundation a Thrysorlys Ei Fawrhydi a chynnal seminar Gwaith Teg yng Nghymru, gan rannu ein hymchwil ar dueddiadau mewn ansawdd swyddi a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i helpu pobl i gael mynediad i waith gwell.

Gwella llythrennedd, rhifedd a sgiliau bywyd

Fe wnaethom fodelu anghenion sgiliau hanfodol lawr i lefel ward yn Lloegr a chysylltu gydag Aelodau Seneddol gyda data ar eu hardaloedd lleol mewn digwyddiad seneddol a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Oedolion.

Cefnogwyd ardal datganoledig yn Lloegr i ddatblygu polisi ar addysg oedolion a sgiliau hanfodol, gan werthuso Multiplu yng Ngorllewin Canolbarth Cymru a chyflwyno gwaith i Awdurdod Llundain Fwyaf ar ddefnydd dysgu o bell ar fynediad cymunedau ymfudol i ddarpariaeth addysg oedolion ac ar effaith y cynnydd mewn costau byw ar addysg oedolion.

Fel rhan o'n gwaith gyda'r Fyddin Brydeinig, dangosodd ein gwerthusiad o Goleg Sefydlu y Fyddin (Harrogate) fanteision clir pobl ifanc yn ennill cymwysterau lefel 2 a 3, yn cynnwys Saesneg a mathemateg.

Yn ein rôl fel cydlynnydd ESOL Rhanbarthol De Ddwyrain Lloegr, fe wnaethom gynnal rhaglen adeiladu capasiti ESOL. Cafodd hyn ei ariannu gan Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU a chafodd ei gyflwyno gyda'r Sefydliad Addysg a Hyfforddiant, Learning Unlimited ac awdurdodau lleol i gefnogi ymarferwyr a gwirfoddolwyr ESOL newydd a phrofiadol ar draws y rhanbarth.

Yng Nghymru, fe wnaethom gymryd rhan yng Ngrŵp Gweithredu Diwygio ESOL a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaethom drefnu cynhadledd ESOL yng Nghaerdydd a thyfu ein Rhwydwaith ESOL drwy gydlyn dysgu proffesiynol a helpu ymarferwyr i ddod ynghyd gyda gwneuthurwyr polisi i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r sector.



Gwaith rhyngwladol

Rydym yn parhau'n weithgar yng Nghymdeithas Addysg Oedolion Ewrop (EAEA) a Rhwydwaith Sgiliau Sylfaenol Ewrop, gan rannu gwybodaeth a gafwyd o'n gwaith gyda darparwyr addysg oedolion, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi ar draws Ewrop. Yng nghynhadledd flynyddol EAEA yn Zagreb, fe wnaethom hwyluso gweithdy ar sgiliau gwyrdd ar gyfer oedolion, gan ddefnyddio canfyddiadau o'n harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu. Fe wnaethom gadeirio digwyddiad lledaenu prosiect RegALE ym Mrwsel, gan roi sylw i ymarfer effeithlon mewn addysg oedolion ar y lefel ranbarthol. Yng nghynhadledd flynyddol EBSN yn Pecs, fe wnaethom rannu gwybodaeth o'n gwaith ar ymarfer effeithlon mewn llythrennedd a rhifedd oedolion yn Llundain. , Roeddem yn falch iawn i gynnal cyfarfod o Fwrdd Gweithredol EAEA a rhanddeiliaid addysg oedolion y Deyrnas Unedig ym Manceinion ac i gymryd rhan mewn seminar arbenigol yn Berlin, yn cynghori Gweinyddiaeth Addysg ac Ymchwil Ffederal yr Almaen ar gyfeiriad y dyfodol ar gyfer ei strategaeth llythrennedd oedolion.

Yng Nghymru mae gennym gyfnewid parhaus gyda phartneriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon drwy'r Rhaglen Taith, oedd yn cynnwys digwyddiad rhannu ymarfer fel rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion.



EDRYCH I'R DYFODOL

Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith gynllun strategol newydd i lywio ein gwaith ar gyfer y pum mlynedd nesaf

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2029 yw:

- Dysgu gydol oes
- Sgiliau hanfodol
- Cyflogaeth
- Gwaith gwell

Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial.

Byddai ein gweledigaeth yn golygu y byddai erbyn 2040:



Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu, gan gyflawni hyn drwy ostwng yn sylweddol y diffyg cydraddoldeb rhwng grwpiau ac ardaloedd. Byddwn yn mesur hyn gyda'n Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu ac arolygon eraill ar addysg oedolion.



Pawb â'r sgiliau a galluoedd hanfodol tebyg i lythrennedd, rhifedd a digidol maent eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith. Byddwn yn mesur hyn drwy arolygon rhyngwladol fel PIAAC a data ar ddysgu sgiliau hanfodol yng ngwledydd y Deyrnas Unedig.



Y Deyrnas Unedig sydd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yn y G7, gyda 80% o oedolion oedran gwaith mewn gwaith, gan gyflawni hyn drwy gau'r bylchau cyflogaeth rhwng grwpiau ac ardaloedd. Byddwn yn mesur hyn drwy gyfradd cyflogaeth yr Arolwg Gweithlu.



Mwy o bobl mewn gwaith sy'n diwallu eu hanghenion, cefnogi llesiant, datblygiad a safonau byw da. Byddwn yn mesur hyn drwy fasged o fesurau yn cynnwys y gyfran o bobl sy'n cael tâl is na'r cyflog Byw Gwirioneddol, a hoffai weithio oriau gwahanol a chael hyfforddiant yn y gwaith.

EIN CYLLIDWYR

Abri

Addysg Oedolion Cymru

Age UK

Chwarae Teg

City & Guilds

Clarion Futures

Coleg Gŵyr Abertawe

Commonweal Housing

Department for Education

Department for Work and Pensions

Ecorys UK

Education and Training Foundation

Education Audiovisual and Culture Exec Agency

European Association for the Education of Adults

Greater London Authority

Greater Manchester Combined Authority

Guys & St Thomas Charity

Leicestershire Cares

Llywodraeth Cymru

Ministry of Defence

National Lottery Community Fund

NHS South East

NOCN

Nuffield Foundation

Open University

Phoenix Group

Prifysgol Caerdydd

South East Strategic Partnership for Migration

Skills and Education Group

Sovereign Network Group

The Edge Foundation

The Health Foundation

The St Martin's Group

Trade Union Congress

Trust for London

Ufi VocTech Trust

West Midlands Combined Authority

Youth Futures Foundatio

sefydliaddysguagwaith.cymru

enquiries@learningandwork.org.uk



@LearnWorkUK @LearnWorkCymru @learnworkuk.bsky.social



Arhoswch yn wybodus. Cymryd rhan. Daliwch ati.

Cofrestrwch i ddod yn Ddysgu a Gwaith
Cefnogwr sefydliad

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol.
Unit 1.23, St Martins House, 7 Peacock Lane, Leicester LE1 5PZ
Rhif cofrestru cwmni. 2603322 | Rhif cofrestru elusen. 1002775

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, ac eithrio yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu o dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Hawlfraint Asiantaeth Drwyddedu.